

2.1. Creu Adran Gyswilt (Cymedrolwyr yn Unig)

Gellir defnyddio adrannau cyswilt i ychwanegu eitem at we-lywio eich Adran nad ydyw, mewn gwirionedd, yn rhan o'ch Adran. Yn hytrach na bod yn adran y byddwch yn ychwanegu cynnwys ati i greu tudalen, bydd yr adran hon yn cyfeirio'r defnyddiwr at we-dudalen o'ch dewis.

Er enghraifft, mae llawer o'r dolenni yn y ddewislen ar dudalen Amdanom Ni y Brifysgol (isod) yn adrannau cyswilt sy'n mynd â'r defnyddiwr allan o adran 'Y Brifysgol'.



About Us

About Us: The University

Awards and Accolades

Strategic Plan & Mission

Research

Teaching & Learning

Study with Us

150th Anniversary

Our History

Sustainability at Aberystwyth University

Corporate Information

Departments and Faculties

Dates of Term

Maps & Travel

Job Opportunities

Complaints

Contact Us




About Us

Since 1872, we have built a global reputation for **teaching excellence and ground-breaking research**. Today, we are home to students from all over the world. We pride ourselves on our welcome and inclusivity, while at the same time being a university rooted in excellence and research.


Ceir 2 fath o adran gyswilt - mae un yn cysylltu ag adran o fewn y System Rheoli Cynnwys (yn eich Adran/ardal neu yn rhywle arall); mae'r llall yn cysylltu â safle sydd y tu hwnt i'r SRhC (gallai hwn fod yn un o safleoedd PA nad ydyw'n rhan o'r SRhC, neu'n safle allanol)

Adran Gyswilt - o fewn y System Rheoli Cynnwys

1. O'r Site Structure, dewch o hyd i'r adran y mae arnoch eisiau gweithio ynddi.
2. Cliciwch ar y botwm 'Actions' ar y dde i'r adran yr ydych wedi'i dewis, a bydd y ddewislen 'Actions' yn ymddangos. Dewiswch 'Create section'.




3. Bydd y dudalen 'General Section Details' yn ymddangos:



4. Rhwch enw i'r adran. Bydd yr enw hwn yn ymddangos yn y ddewislen ar y chwith ar eich safle.

5. Ticiwch y blwch 'Mark as link section'. Bydd llawer o'r dewisiadau yn diflannu yn awr.

6. Cliciwch ar y tab 'Details'.



The screenshot shows a 'Details' tab in a configuration window. It contains the following elements:

- Link Type:** Two radio buttons, 'Section' (unselected) and 'External URL' (selected).
- Link URL:** A text input field.
- Link target:** A dropdown menu.
- Override other Languages with this Link:** A checkbox (unchecked).
- Buttons:** 'Cancel' and 'Save changes' at the bottom right.

7. Yn y llinell 'Link type', dewiswch 'Section'.


8. Cliciwch ar y botwm 'Select Section' sydd bellach wedi ymddangos.

9. Bydd y ffenestr 'Select Section' yn ymddangos. Cliciwch ar yr adran yr hoffech greu cyswllt â hi.

10. Bydd yr adran a ddewiswyd gennych yn cael ei harddangos yn y tab 'Details'.

11. Cliciwch ar y botwm 'Save changes' er mwyn gorffen.

12. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dudalen strwythur y safle, ac fe welwch yr eicon cyswllt adran ger enw'r adran:




Creu'r Fersiwn Gymraeg o'ch adran gyswllt

13. Cliciwch ar yr eicon 'Site language' (glôb) ar frig y sgrin a dewis Cymraeg. Bydd fersiwn Gymraeg y dudalen 'Site Structure' yn ymddangos.
14. Dewch o hyd i'r adran gyswllt yr ydych newydd ei hychwanegu. Ei henw fydd 'Not translated' gan nad yw'r teitl Cymraeg wedi'i bennu eto, ond dylech weld yr eicon cyswllt adran mewnol wrth ei hymyl. Cliciwch ar y geiriau 'Not translated' er mwyn agor yr adran i'w golygu.


Sylwer: Os oes llawer o adrannau newydd nad oes teitlau Cymraeg wedi eu pennu ar eu cyfer, gall fod yn anodd dod o hyd i'r un y mae arnoch eisiau gweithio arno - symudwch eich llygoden dros y geiriau 'Not translated' a bydd blwch bach sy'n cynnwys teitl Saesneg y dudalen yn ymddangos.

15. Bydd fersiwn Gymraeg o'r sgrin 'General section details' yn ymddangos.
16. Ychwanegwch enw'r adran - dylai hwn fod yn fersiwn Gymraeg o'r enw Saesneg.
17. Cliciwch ar y tab 'Details'.
18. Yn y llinell 'Link type', dewiswch 'Section'.
19. Cliciwch ar y botwm 'Select Section' sydd bellach wedi ymddangos.
20. Bydd y ffenestr 'Select Section' yn ymddangos. Cliciwch ar yr adran yr hoffech greu cyswllt â hi.
21. Bydd yr adran a ddewiswyd gennych yn cael ei harddangos yn y tab 'Details'.
22. Cliciwch ar y botwm 'Save changes' er mwyn gorffen.
23. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dudalen strwythur y safle, ac fe welwch yr eicon cyswllt adran ger enw'r adran:




Adran Gyswilt -oddi allan i'r System Rheoli Cynnwys

1. O'r Site Structure, dewch o hyd i'r adran y mae arnoch eisiau gweithio ynddi.
2. Cliciwch ar y botwm 'Actions' ar y dde i'r adran yr ydych wedi'i dewis, a bydd y ddewislen 'Actions' yn ymddangos. Dewiswch 'Create section'.




3. Bydd y dudalen 'General Section Details' yn ymddangos.



4. Rhwch enw i'r adran. Bydd yr enw hwn yn ymddangos yn y ddewislen ar y chwith ar eich safle.
5. Ticiwch y blwch 'Mark as link section'.

6. Cliciwch ar y tab 'Details'.



The screenshot shows a web interface with two tabs: 'General' and 'Details'. The 'Details' tab is active. It contains the following elements:


- Link Type:** Two radio buttons. 'Section' is unselected, and 'External URL' is selected.
- Link URL:** A text input field.
- Link target:** A dropdown menu.
- Override other Languages with this Link:** An unchecked checkbox.
- Buttons:** 'Cancel' and 'Save changes' buttons are located at the bottom right.

7. Yn y llinell 'Link type', dewiswch 'External URL'.

8. Teipiwch neu ludo'r URL i greu cyswllt ag ef yn y blwch 'Link URL'.

9. Cliciwch ar y botwm 'Save changes' er mwyn gorffen.

10. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dudalen strwythur y safle, ac fe welwch yr eicon cyswllt allanol ger enw'r adran:



Creu'r Fersiwn Gymraeg o'ch adran gyswllt

11. Cliciwch ar yr eicon 'Site language' (glôb) ar frig y sgrin a dewis Cymraeg. Bydd fersiwn Gymraeg y dudalen 'Site Structure' yn ymddangos.
12. Dewch o hyd i'r adran gyswllt yr ydych newydd ei hychwanegu. Ei henw fydd 'Not translated' gan nad yw'r teitl Cymraeg wedi'i bennu eto, ond dylech weld yr eicon cyswllt adran mewnol wrth ei hymyl. Cliciwch ar y geiriau 'Not translated' er mwyn agor yr adran i'w golygu.

Sylwer: Os oes llawer o adrannau newydd nad oes teitlau Cymraeg wedi eu pennu ar eu cyfer, gall fod yn anodd dod o hyd i'r un y mae arnoch eisiau gweithio arno - symudwch eich llygoden dros y geiriau 'Not translated' a bydd blwch bach sy'n cynnwys teitl Saesneg y dudalen yn ymddangos.

13. Bydd fersiwn Gymraeg o'r sgrin 'General section details' yn ymddangos.
14. Ychwanegwch enw'r adran - dylai hwn fod yn fersiwn Gymraeg o'r enw Saesneg.
15. Cliciwch ar y tab 'Details'.
16. Yn y llinell 'Link type', dewiswch 'External URL'.
17. Teipiwch neu ludo'r URL i greu cyswllt ag ef yn y blwch 'Link URL'.
18. Cliciwch ar y botwm 'Save changes' er mwyn gorffen.
19. Bydd y system yn mynd â chi yn ôl i dudalen strwythur y safle, ac fe welwch yr eicon cyswllt allanol ger enw'r adran:

